**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**
**Dyddiad:** 31 Hydref 2000
**Amser:** 9.00 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd, Cadeirydd Gweithredol | (Plaid Cymru) |
| Nick Bourne | (Ceidwadwyr) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Diprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Karen Sinclair a Lynne Neagle

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-24-2000 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cytunwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf y dylai ysgrifennu at y Prif Weinidog i holi am y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â defnydd y term "Y Prif Weinidog" gan mai’r term "Ysgrifennydd y Cynulliad" yw’r teitl a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru a’r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, ar ôl edrych yng Nghofnod y diwrnod y cyhoeddwyd y newid (17$^{eg}$ Hydref) awgrymwyd nad oedd angen ysgrifennu am y mater hwn bellach. Roedd y Prif Weinidog wedi datgan:

> "*Sut yr ydych yn cadw, ar un ochr, yr hyn sydd yn y Ddeddf, lle y disgrifir ein Gweinidogion fel Ysgrifenyddion? Rhaid i hynny aros fel ag y mae. Rhaid ichi lofnodi dogfennau cyfreithiol gyda’r union deitl gan ddefnyddio’r geiriau a’r*

*ymadroddion a geir yn y Ddeddf. Mae llawer o Weinidogion yn San Steffan â theitlau ymarferol sydd yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiant wrth lofnodi dogfennau swyddogol, megis Ysgrifennydd Cartref ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, a Prif Weinidog a Phrif Arglwydd y Trysorlys. Mae llawer o gynsail felly i'r symudiad hwn heddiw".*

2.2 Awgrymwyd y gellid defnyddio'r term "Prif Weinidog y Cynulliad" wrth ohebu, ond y dylid defnyddio "Ysgrifennydd y Cynulliad" yn adroddiadau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, ym marn yr aelodau, nid oedd yn rhaid dilyn y cynsail a sefydlwyd yn San Steffan (a cyfeiriwyd ato gan y Prif Weinidog) yng Nghymru o anghenraid ac roedd angen eglurhad am hyn o hyd mewn perthynas ag adroddiadau'r Pwyllgor ac unrhyw Femorandwm Cywiriadau h.y. graddau'r "dogfennau cyfreithiol" y cyfeiriwyd atynt. Cytunwyd felly y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am eglurhad pellach. **Cam gweithredu: Clerc.**

2.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau eu bod wedi ystyried Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 yn ystod eu cyfarfod ar 10 Hydref. Cytunasai'r Pwyllgor i'w wneud yn amod o'u hadroddiad y dylid diwygio'r camgymeriadau drafftio sy'n adroddiadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 drwy ddefnyddio'r Memorandwm Cywiriadau o dan Reol Sefydlog 22.12A. O dan y Rheolau Sefydlog mae gofyn i'r Weithrediaeth gyflwyno'r Memorandwm Cywiriadau gerbron y Sesiwn Lawn i'w ystyried ochr yn ochr ag adroddiad y Pwyllgor a'r Gorchymyn. Ni wnaethpwyd hyn. Er y gosodwyd y gorchymyn drafft ac adroddiad y Pwyllgor, sy'n cynnwys cyfeiriad at y Memorandwm Cywiriadau, gerbron y Sesiwn. O ganlyniad, roedd hyn yn golygu y bu'r Cynulliad yn penderfynu ar ddarn diffygiol o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ni chafodd ei lofnodi gan y Llywydd a bellach bydd angen ei ailystyried yn y Sesiwn Lawn. Golyga hyn y bydd dau gynnig gerbron. Bydd y cyntaf yn gofyn i'r aelodau gytuno i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig a gymeradwywyd ar 19 Hydref, a bydd yr ail yn gofyn i'r Cynulliad wneud y gorchymyn fel y'i hystyriwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar y cyd â'r Memorandwm Cywiriadau.

2.4 Tynnwyd sylw'r Pwyllgor hefyd at y ffaith bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi'i beirniadu am fethu â dilyn y gweithdrefnau er nad oedd hynny'n wir. Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd i fynegi pryder yngln â'r ffaith y gall hyn achosi embaras i'r Cynulliad os na lynwyd yn gywir at y gweithdrefnau. **Cam gweithredu: Clerc.**

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC130 – Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 1)(Cymru) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r pwyllgor. Gwnaed y gorchymyn o dan y weithdrefn frys.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y

Pwyllgor un sylw bach yr oeddynt o’r farn y dylid ei gofnodi yn eu Hadroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y gorchymyn drafft hwn fel LC130 (Adroddiad).

**LC131 – Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol)(Cymru) 2000**
3.4 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i’r pwyllgor.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw bach ar iaith sy’n niwtral o ran rhyw a’r problemau a all godi yn y Gymraeg.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y gorchymyn drafft hwn fel LC131 (Adroddiad).

**Eitem 4 Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Tachwedd 2000 pan fydd tri darn o ddeddfwriaeth i’w hystyried. Oherwydd y problemau diweddar a gafwyd i sicrhau cworwm yn y cyfarfodydd, cytunwyd y dylid anfon nodyn i’r aelodau yn rhoi gwybod iddynt ei fod yn bwysig mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Deddfau yn brydlon. **Cam gweithredu: Clerc.**

**Adroddiadau a Atodir**

- **LC130**
- **LC131**